# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 1**

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Trwyddedu*

## 24 Diwygio trwydded

(1) Caiff awdurdod trwyddedu, yn unol â'r adran hon, ddiwygio unrhyw drwydded a roddir ganddo.

(2) Caniateir diwygio trwydded er mwyn—

(a) gosod amodau newydd;

(b) dileu neu newid amodau presennol (ac eithrio'r gofyniad i gydymffurfio ag unrhyw god ymarfer a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru).

(3) Ond cyn penderfynu diwygio trwydded rhaid i awdurdod trwyddedu—

(a) hysbysu deiliad y drwydded am ei fwriad i ddiwygio'r drwydded a'r rhesymau dros hynny, a

(b) ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan ddeiliad y drwydded cyn diwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad yr hysbyswyd y person.

(4) Nid yw is-adran (3)(b) yn gymwys i ddiwygiad—

(a) os yw deiliad y drwydded yn cydsynio iddo, neu

(b) pan fo awdurdod trwyddedu yn ystyried bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu bod angen ei wneud yn ddi-oed.

(5) Ar ôl diwygio trwydded rhaid i'r awdurdod trwyddedu hysbysu deiliad y drwydded am—

(a) y diwygiad a'r rhesymau drosto;

(b) ac eithrio pan fo deilad y drwydded wedi cydsynio i'r diwygiad, gwybodaeth am hawl deiliad y drwydded i apelio (gweler adran 27).

(6) Mae diwygiad i drwydded yn cael effaith ar y diwrnod y mae pa un bynnag o'r canlynol yn digwydd gyntaf—

(a) pan fo deiliad y drwydded wedi cydsynio, pan fydd yr awdurdod trwyddedu yn hysbysu deiliad y drwydded o dan is-adran (5);

(b) pan nad yw deiliad y drwydded yn apelio yn erbyn y penderfyniad i ddiwygio'r drwydded o fewn y cyfnod apelio, pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben;

(c) pan fo deiliad y drwydded yn apelio o fewn y cyfnod apelio ond yn tynnu'r apêl yn ôl yn ddiweddarach, dyddiad ei dynnu'n ôl;

(d) pan fo deiliad y drwydded yn apelio o fewn y cyfnod apelio a'r tribiwnlys eiddo preswyl yn cadarnhau penderfyniad yr awdurdod trwyddedu i ddiwygio'r drwydded, yn ddarostyngedig i baragraff (e), dyddiad penderfyniad y tribiwnlys;

(e) pan fo deiliad y drwydded yn cyflwyno apêl bellach, y dyddiad y mae pob dull o apelio yn erbyn y penderfyniad wedi ei ddisbyddu a phenderfyniad yr awdurdod trwyddedu yn cael ei gadarnhau.

(7) Y "cyfnod apelio" at ddibenion is-adran (6) yw'r cyfnod hwnnw a grybwyllir yn adran 27(3)(a) (apelau trwyddedu).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 24 mewn grym ar 23.11.2015 gan O.S. 2015/1826, **ergl. 2(n)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 24.